

Rheol llaw chwith Fleming

- ALYA Hei, mae'n dechre!
- AIYSHA Pam maen nhw'n mynnu gwneud sioe oleuada?
Maen nhw'n gwario ffortiwn ar drydan!
- ALYA Ydyn. Mae'r generadur yn gweithio'n galed!
- ADA I ddeall sut mae generadur yn gweithio, mae'n rhaid
deall anwythiad.
- AIYSHA Amseru gwych Ada. Fel arfer.
- ADA Galli di gynhyrchu cerrynt trydanol gyda gwifren gopr,
magnet a mudiant. Os symudi di fagnet trwy goil o wifren
gopr, bydd y mudiant ynghyd â'r magnet yn cydweithio â'r
wifren, yn cynhyrchu cerrynt trydanol. Yr enw ar hyn yw
anwythiad electromagnetig neu'n gryno, anwythiad. Cofia,
nid yw anwythiad yn digwydd os yw'r magnet yn llonydd.
- AIYSHA O na, ble ma'n llyfr nodiadau i?
- ALYA Sut gofiwn ni'r wybodaeth ddiddorol 'ma heb lyfr
nodiadau?
- ADA Ymddygiad digywilydd... anwybyddu.
- Mae anwythiad hefyd yn digwydd pan mae magnet yn
llonydd, a'r coil yn symud. Generaduron sy'n pweru grid y
prif gyflenwad. Mae generaduron yn defnyddio anwythiad
i gynhyrchu trydan; rhywbeth ry'n ni i gyd ei angen.
- AIYSHA Ada, nid dyn ar feic sy'n pweru'r cyflenwad.
- ADA Ond mae'n hwyl 'ndyw e Ricardo?
- RICARDO **Si!**
- ADA Gan ddefnyddio anwythiad, mae generadur yn
cynhyrchu trydan gyda magnet sy'n cylchdroi tu fewn i
goiliau o wifrau copr. Ond, mae'r cerrynt yn rhy uchel i
gael ei drosglwyddo ar draws llinellau pŵer. Felly,
defnyddir newidydd i leihau'r cerrynt a chynyddu'r
foltedd.

Bitesize

Pan mae cerrynt eiledol yn llifo drwy'r coil cyntaf, mae'n anwytho maes magnetig newidiol. Mae'r maes magnetig yma'n teithio drwy'r craidd haearn a thrwy'r ail goil. Mae hyn yn creu cerrynt yn yr ail goil. Po fwyaf o goiliau sydd, y lleiaf fydd y cerrynt.

CYHOEDDWR

Boneddeigion a boneddigesau, rhowch groeso i **Luchador Del Fuego Muerto**! A'i wrthwynebydd, y Ffla-mingggg-oooo ffyrnig!

AIYSHA

Y Fflamingo ffyrnig?

ALYA

Ie, a'i symudiad reslo byd enwog llaw chwith Fflamingo!

AIYSHA

Llaw chwith Fflamingo. Be 'di o?

ADA

Rydych chi'n mwynhau'r wers hon ond ydych?

AIYSHA
ALYA

Ada!

ADA

Gall rheol llaw chwith Fleming fod yn help llaw wrth weithio mas i ba gyfeiriad fydd y mudiant neu i ba gyfeiriad y bydd cerrynt yn cael ei anwytho mewn generadur. Pwyntia dy fynegfys i gyfeiriad y maes magnetig, a dy fys canol i gyfeiriad cerrynt y wifren, a dy fawd i gyfeiriad mudiant y wifren. I newid y sefyllfa, y cwbl sy'n rhaid gwneud yw newid cyfeiriad y llaw.

ALYA

Diolch Ada, ond ro'n i'n sôn am law chwith Fflamingo, felly digon o wyddoniaeth, mae'r reslo'n dechrau.

CYHOEDDWR

Incredible! Am y tro cynta' mewn degawd, mae Fflamingo wedi defnyddio'i symudiad llaw chwith byd enwog! Falle welwn ni mohono fe eto! **Dios mio!**